Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Astudiaethau achos
# Caru Gwenyn yn Ysgol y Glannau

**"Mae angen i bobl ddysgu i garu gwenyn, yn hytrach na'u casáu. Maen nhw'n aruthrol o bwysig i ni, gan eu bod yn peillio ein cnydau. Mae gan y cynllun Caru Gwenyn enw perffaith ar gyfer gwella ymwybyddiaeth a newid barn pobl" –** Ria, un o ymgyrchwyr ecolegol Ysgol y Glannau

Ers tro, mae Ysgol y Glannau (**www.coastlandscpschool.co.uk**) wedi bod wrthi'n ddiwyd yn dysgu a'n gofalu am eu hamgylchedd a'u pryfed peillio. Yn 2017, enillodd yr ysgol statws Caru Gwenyn.

Mae'r disgyblion yn parhau i weithio'n galed i wella tir eu hysgol er budd pryfed peillio, yn ogystal â cheisio gwella ymwybyddiaeth pobl o'u pwysigrwydd.

Maen nhw'n credu fod dysgu am wenyn a phryfed peillio yn gwella eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau byd-eang.

Mae Ysgol y Glannau wedi gwneud addewid i gynnal lleoedd i bryfed peillio fyw, i dyfu blodau sy'n addas ar eu cyfer drwy gydol y flwyddyn, i osgoi cemegau niweidiol, yn ogystal â chynnwys y gymuned yn y broses o wella ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio.

## Thema 1 – Bwyd – darparu ffynonellau bwyd sy'n addas i bryfed peillio

Yn gyntaf, dewiswyd planhigion gyda digon o botensial am baill, ac yna mynd ati i blannu cornel beillio a phalu gwely blodau gwyllt. Mae ganddynt 'weirglodd' ar dir yr ysgol lle caniateir i'r glaswellt a'r blodau dyfu.

## Thema 2 – Llety Pum Seren – rhoi lle i bryfed peillio fyw



Maent wedi adeiladu dau 'westy' i drychfilod, un yng ngardd yr ysgol a'r llall mewn coedwig leol, a'r plant sy'n gyfrifol am eu cynnal. Yn aml, bydd y plant yn cynnal 'helfa pryfed' ac yn edrych ar bwy sy'n defnyddio'r ddau 'westy', byddant hefyd yn archwilio'r planhigion sy'n peillio ac yn defnyddio rhwydi i ddal pryfed. Maent yn cofnodi unrhyw newidiadau ar dir yr ysgol, yn nodi tyfiant o hadau gwyllt, ac yn tynnu lluniau hefyd. Mae Polli:Nation (**www.polli-nation.co.uk**) wedi bod yn ffynhonnell ardderchog o ddeunyddiau ac adnoddau.

## Thema 3 – Rhyddid Rhag Plaladdwyr – osgoi cemegau sy'n niweidio pryfed peillio

Er mwyn sicrhau nad yw contractwyr yn chwistrellu chwynladdwyr, mae'r plant wedi gwneud arwyddion i ddangos nad ydynt eisiau cemegau ar dir eu hysgol. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i beidio â defnyddio unrhyw blaladdwyr.

## Thema 4 – Hwyl – cynnwys yr holl gymuned

Hefyd, mae'r plant wedi dylunio masgot ecolegol, Flora'r Wenynen, a ddefnyddir gaddynt pan fyddant yn gwneud eu gwaith amgylcheddol. Fe gynhalion nhw ddiwrnod gwisgo stribedi fel gwenyn hefyd. Nod y diwrnod oedd gwella ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwenyn a phryfed peillio a'r hyn y gall pawb ei wneud i ofalu amdanyn nhw. Maent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, y wasg leol, a'u rhieni er mwyn hyrwyddo'u gwaith.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40090